

Panel Adolygu Arbenigol: Cyfarfod 4

Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2022

Yn bresennol:

Cadeirydd: Yr Athro Suzanne Fitzpatrick (Prifysgol Heriot-Watt).

Aelodau: Matt Downie (Crisis), Liz Davies CB (Siambrau Garden Court), Yr Athro Peter Mackie (Prifysgol Caerdydd), Jennie Bibbings (Shelter Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), Jim McKirdle (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Angela Bowen (Cyngor Sir Gâr), Clarissa Corbisiero (Cartrefi Cymunedol Cymru), Nazia Azad (Tai Pawb), Hannah Fisher (Llywodraeth Cymru), Huw Charles (Llywodraeth Cymru).

Hefyd yn bresennol: Jordan Brewer (Crisis), Abi Renshaw (Crisis), Debbie Thomas (Crisis), Ashleigh Stevens (Cyngor Conwy), Adrian Berry (Siambrau Garden Court).

Ymddiheuriadau: Sam Parry (Cyngor Conwy).

1. Croeso a chofnodion

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i bedwerydd cyfarfod y Panel Adolygu Arbenigol, a diolchodd i bawb am gael ymestyn hyd y cyfarfod i 3 awr.

Cofnodion cyfarfod 2: Newid bach wedi'i ymgorffori. Cymerir bod y cofnodion wedi'u cymeradwyo, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan aelod o'r Panel. Dim materion heb gael sylw.

Cofnodion cyfarfod 3: I'w diwygio i gynnwys eglurder o fewn yr is-deitlau ynglŷn â safbwyntiau'r Arbenigwyr drwy Brofiad. Dim newidiadau eraill. Derbyniwyd.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Jordan Brewer	Cylchredeg cyngor LD ar gefnogaeth yn ymwneud â dyraniadau.	Ar unwaith
Pete Mackie	Cymeradwyo newid i gofnodion cyfarfod 2.	Ar unwaith
Jordan Brewer	Crisis i newid cofnodion cyfarfod 3 i adlewyrchu sylw gan KD.	Ar unwaith

2. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Rhoddodd HF ddiweddariad byr gan Lywodraeth Cymru, a nodwyd y canlynol:

- Dim diweddariad pellach ynglŷn â'r rheoliadau addasrwydd. Mae'r gwaith yn parhau.
- Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd yn gwneud gwaith ar ddiartrefedd, a bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn bresennol yn y pwyllgor hwnnw ymhen pythefnos.
- Cafwyd cadarnhad y bydd [Tai Pawb](#) yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar waith ymgysylltu wedi'i dargedu. Bydd hyn yn cynnwys grwpiau ffocws a fydd yn defnyddio partneriaid arbenigol i integreiddio lleisiau cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnwys pobl o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ceiswyr lloches, ffoduriaid, y rhai sy'n cael eu heffeithio gan statws EEA, pobl ag anabledau a phobl o gymunedau LGBTQ+. Bydd HF yn rhoi diweddariad llafar i'r Panel yn y flwyddyn newydd, cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2023.

- Mae gwaith [Plant yng Nghymru](#) er mwyn cynorthwyo gwaith y Panel yn mynd rhagddo. Bydd gwahoddiad ysgrifenedig i gyfrannu tuag at y gwaith yn cael ei ddosbarthu ymhen ychydig ddiwrnodau.
- Mae sesiwn rhanddeiliaid wedi'i gynllunio ar gyfer mis Rhagfyr er mwyn dod â phrofiadau plant a phobl ifanc at ei gilydd. Bydd yr adroddiad ar gael ym mis Chwefror 2023.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn arwain gwaith ymgysylltu â grwpiau cyfeirio newydd, a fydd yn cael eu sefydlu yn y flwyddyn newydd, gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Hannah Fisher	Yn niweddariad Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod nesaf, rhoi sylwadau ar: <ul style="list-style-type: none"> • Y gwaith ymgysylltu â Tai Pawb. • Gwaith Plant yng Nghymru, sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Rhagfyr a'r adroddiad i'w gyhoeddi ym mis Chwefror. • Arwain y gwaith o ymgysylltu ag awdurdodau lleol, gan gynnwys dechrau rhoi argymhellion ar brawf yn y flwyddyn newydd. 	03.02.2023
Hannah Fisher	Anfon gwahoddiad Plant yng Nghymru at y Panel ar gyfer yr ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Rhagfyr.	Ar unwaith
Pawb	Anfon argymhellion at HF yn ymwneud ag arwain y gwaith o ymgysylltu'n ystyrion ag ALLau.	Ar unwaith

3. Diweddariad ar ymgysylltu

Cyflwynodd DT yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel ar y gwaith y mae Crisis yn ei wneud er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan adeiladu ar waith gan KD a HF. Roedd y prif agweddau fel a ganlyn:

- Mae [tudalen we](#) y Panel yn fyw nawr. Yn y dyfodol bydd rhanddeiliaid yn gallu cofrestru ar gyfer sesiynau ymgysylltu drwy'r wefan.
- Caiff dyddiadau'r sesiynau ymgysylltu eu rhannu. Cynhelir pob sesiwn ymgysylltu cyn cyfarfod y Panel, a cheir trafodaeth am y thema nesaf er mwyn rhoi tystiolaeth i'r Panel ei hystyried. Mae croeso i aelodau'r Panel helpu gyda'r sesiynau hyn.
- Cynhaliwyd y sesiwn ymgysylltu cyntaf ddydd Gwener, 18 Tachwedd. Cafwyd presenoldeb da, ac roedd y rhanddeiliaid yn frwdfrydig ac yn dangos llawer o ddiddordeb. Anfonir crynodeb o'r trafodaethau at aelodau'r Panel i helpu â'r cyfarfod wyneb yn wyneb ddechrau mis Chwefror.

Roedd y prif bwyntiau a drafodwyd yn y sesiwn yn cynnwys:

Llety dros dro:

- Prinder llety dros dro yn gyffredinol ledled Cymru.
- Prinder mathau gwahanol o letyau dros dro i ddiwallu anghenion cymorth amrywiol.
- Prinder llety dros dro un gwely.
- Prinder cyfleusterau digonol.
- Methiant i ddefnyddio'r sector rhentu preifat ar gyfer llety dros dro oherwydd cost a goblygiadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Dyraniadau:

- Mae polisiâu yn rhwystro ymgeiswyr rhag cael tai, er enghraifft polisiâu ar hanes ôl-ddyledion rhent, cofnod troseddol, ymddygiad annerbyniol a pholisi dim anifeiliaid anwes.
- Wrth ddyrannu llety i deuluoedd digartref, mae cymdeithasau tai yn dweud ei bod yn bwysig bod ganddynt hyder y bydd y cyllid, yr adnoddau a'r gefnogaeth yn dilyn.
- Nid oedd y cymdeithasau tai yn y cyfarfod y buom ni ynddo yn hoff iawn o'r dull a ddefnyddir yn yr Alban ([Adran 5 yn Neddf Tai \(Yr Alban\) 2014](#)). Nid yw'n gydnaws â'r diwylliant o gydweithredu sy'n bodoli yng Nghymru.
- **Dyletswydd i gydweithredu:** Dywedodd llawer fod angen rhannu dyletswyddau yn ymwneud â thai â gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- **Data:** Mae Cymdeithasau Tai yn dweud nad yw'r data mor gywir ag y gallent fod, ac nad ydynt yn adlewyrchiad teg o'r holl waith sy'n gysylltiedig â chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- **Adnoddau:** Roedd prinder adnoddau yn thema a nodwyd gan lawer fel rhwystr.

Ychwanegodd aelodau o'r Panel a oedd yn bresennol ei bod yn anodd iawn meddwl yn yr hirdymor, a meddwl y tu hwnt i'r sefyllfa bresennol, yn enwedig pan mae adnoddau mor brin. Teimlid bod cyndynrwydd i gymryd risg oherwydd y pryderon presennol ynglŷn ag adnoddau. Er mwyn symud ymlaen â newid deddfwriaethol, byddai angen ystyried pwysau. Mae angen i seilwaith hirdymor allu gwrthsefyll gwahanol gyd-destunau adnoddau.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Pawb	Aelodau'r Panel i ddweud wrth Crisis os ydynt yn dymuno cyflwyno eu hunain fel arweinwyr Panel ar gyfer thema arbennig/digwyddiad rhanddeiliaid.	Ar unwaith
Abi Renshaw	Hysbysu'r Panel pan fydd y ffurflenni archebu sesiwn ymgysylltu yn fyw ar dudalen we Panel Adolygu Arbenigol Crisis, a gofyn iddynt rannu'r wybodaeth â'u rhwydwaith.	Cyn gynted ag y bo modd
Jordan Brewer, Debbie Thomas	Dosbarthu papur i'r Panel yn seiliedig ar ganfyddiadau trafodaeth a gynhaliwyd yn ystod y sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid cyntaf ar 18 Tachwedd.	Cyn cyfarfod mis Chwefror

4. Trosolwg gan Arbenigwyr drwy Brofiad

Cyflwynodd KD ddiweddiariad ar y gwaith ymgysylltu ag Arbenigwyr drwy Brofiad i gefnogi'r papur a rannwyd ag aelodau'r Panel cyn y cyfarfod.

Y thema ddiweddaraf oedd mynediad at dai a llety dros dro. Cymerwyd rhan gan 51 o bobl a oedd wedi cael profiad o fod yn ddigartref. Roeddent yn dod o gefndiroedd amrywiol, ac yn cynnwys pobl ddigartref sengl (o bob oed), menywod ifanc (yn enwedig rhai 16-18 oed, a oedd yn cael eu hystyried yn rhai agored i niwed) a theuluoedd wedi'u lleoli mewn hostel.

Daeth y rhan fwyaf o'r profiadau a rannwyd i law drwy arolwg ar-lein, ond derbyniwyd rhai hefyd yn dilyn cyfarfodydd anffurfiol â thenantiaid mewn tri safle llety dros dro.

Roedd y prif themâu a oedd yn codi o'r profiadau go iawn yn cynnwys:

- **Tosturi:** Empathi tuag at staff a dealltwriaeth o'r pwysau sydd arnynt oherwydd llwyth gwaith a phrinder adnoddau. Empathi tuag at y rhai sy'n ddigartref ac ar y stryd, a deall bod ailgartrefu cyflym yn allweddol er mwyn eu symud i lety dros dro yn fuan.
- **Cymhlethdod y system ddigartrefedd:** Nid yw llawer o bobl yn deall sut mae'r system ddigartrefedd yn gweithio, yn enwedig o ran angen blaenoriaethol a 'blaenoriaethau o fewn blaenoriaethau'. Mae angen symleiddio'r broses ymgeisio, ac mae angen arweiniad a chefnogaeth i helpu pobl. Mae'r cyfathrebu gan awdurdodau lleol ynglŷn â statws y cais yn annigonol.
- **Y cyfnod a dreulir mewn llety dros dro:** Mae pobl yn treulio misoedd a blynyddoedd mewn llety dros dro. Mae peidio â gwybod faint o amser rydych yn mynd i'w dreulio mewn llety dros dro yn cael effaith fawr iawn ar iechyd meddwl. Ar ôl i bobl gael eu rhoi mewn llety dros dro, mae'n ymddangos bod llai o frys i roi rhagor o gefnogaeth. A ddylid cyfyngu ar y cyfnod y gall pobl ei dreulio mewn llety dros dro?
- **Addasrwydd:** Mae angen mathau amrywiol o letyau. Nid yw pobl yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu hystyried, oherwydd eu bod yn cael cynnig llety nad yw'n addas iddynt, ac nid oes ffordd hyfyw iddynt herio'r awdurdod lleol ynglŷn â hyn.
Gall gwrthod llety arwain at golli blaenoriaeth neu golli lle ar y rhestr.
Wrth ddyrannu llety, mae'n bwysig ystyried agosrwydd at: ysgolion, rhwydweithiau cefnogi, gwaith, teulu, cludiant cyhoeddus.
- **Hil:** Cyfeiriodd pobl o leiafrifoedd ethnig at faterion cydraddoldeb a'r gwahanol ffyrdd y mae pobl yn profi'r system ddigartrefedd gan ddibynnu ar eu hil.
- **Safonau llety dros dro:** Dim mynediad at gegin, ystafell ymolchi a chyfleusterau golchi dillad. Dywedodd rhieni na allant fod yn rhieni da yn yr amgylchiadau hyn.
- **Mynediad at dai cymdeithasol:** Cyfraddau cymdeithasau tai lleol ac eiddo na ellir ei fforddio. Roedd ôl-ddyledion rhent yn golygu na allai pobl a oedd mewn dyled gael mynediad at dai cymdeithasol, ac nid yw hyn yn seiliedig ar drawma.
- **Cefnogaeth iechyd meddwl:** Angen mwy o gefnogaeth mewn llety dros dro.

Mae Cymorth hefyd yn trefnu diwrnodau i alluogi arbenigwyr drwy brofiad i leisio eu barn yn bersonol, ac mae digwyddiadau wedi'u cynllunio ym mis Ionawr ar gyfer gogledd a de Cymru.

Dywedodd aelodau o'r Panel:

- Os yw Angen Blaenoriaethol yn cael ei ddileu, mae angen i'r Panel ystyried sut i'w ddileu'n raddol, yn enwedig yng nghyd-destun prinder stoc priodol. Os nad oes deddfwriaeth sy'n rheoli pwy ddylai gael blaenoriaeth, awgrymwyd mai aelodau unigol o'r staff fyddai'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethu.
- Mae'n bwysig edrych beth y gellir ei wneud mewn deddfwriaeth i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb a sicrhau bod grwpiau sydd ar y cyrion yn cael eu cefnogi. Nodwyd y cysyniad o drin pobl ifanc o grwpiau ethnig lleiafrifol fel pe baent yn oedolion (*adulthood*). Nodwyd hefyd bod angen dileu rhagfarn ymwybodol a diarwybod o'r broses ymgeisio.
- Nodwyd bod gwendid y data yn achosi rhwystr. Mae'r data yn wannach nag yng ngwledydd eraill y DU. Cyfeiriwyd at brinder data ar gydraddoldeb er mwyn deall nodweddion pobl sy'n defnyddio llety dros dro, yn enwedig llety dros dro anaddas. Mae angen y data hyn er mwyn arwain gwaith atal.
- Nid yw'r broses ymgeisio yn addas i'r diben – mae'r 'drws ffrynt' i gael mynediad at y system yn rhwystr sy'n atal mynediad at gefnogaeth.
- Efallai y byddai'n werth i aelodau'r Panel dreulio ychydig o amser yn mynd drwy'r broses ymgeisio er mwyn deall y rhwystrau a'r anawsterau y mae ymgeiswyr yn eu hwynebu.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Katie Dalton	Rhoi gwybod i'r Panel beth yw'r dyddiadau ym mis Ionawr ar gyfer sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb i'r rhai sydd â phrofiad personol.	Ar unwaith

5. Cymhwysra

a) Cyflwyniad i'r nodyn cyngor ar gymhwysra

Er bod y nodyn cyngor cyfreithiol ar gymhwysra wedi'i rannu cyn y cyfarfod, bydd fersiwn wedi'i ddiweddarau yn cael ei rannu yn nes ymlaen er mwyn i'r Panel allu meddwl amdano ar ôl y drafodaeth a geir heddiw.

Cyflwynodd AB brif bwytiau'r nodyn cyngor a oedd yn ymwneud â'r opsiynau ar gyfer deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru ar gymhwysra ar gyfer cymorth i berson digartref yng Nghymru.

Awdurdodaeth gydredol

Mae awdurdodaeth gydredol yn golygu bod trefniadau cymhwysra yn wahanol mewn gwahanol wledydd yn y DU. Yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau cymhwysra ar gyfer pobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo yng Nghymru. Mae Ysgrifennydd Gwladol y DU yn gwneud rheoliadau tebyg ar gyfer Lloegr. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o "bobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo" wedi'i gynnwys yn neddfwriaeth y DU, felly mae'n gyfrifoldeb i Ysgrifennydd Gwladol y DU.

Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i benderfynu pwy all dderbyn cymorth digartrefedd yng Nghymru. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi bod y canlynol yn gymwys:

- i. Rhai pobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo, h.y. ffoaduriaid sydd wedi cael caniatâd i ddod i'r DU. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i benderfynu a ddylid eu *cynnwys* a'u gwneud yn gymwys i gymorth digartrefedd.
- ii. Pobl eraill o dramor nad ydynt yn destun rheolaeth fewnfudo, h.y. dinasyddion Prydeinig/Gwyddelig sy'n dychwelyd. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i benderfynu a ddylid eu *heithrio* a'u gwneud yn anghymwys i gymorth digartrefedd.

Heb hawl i gyllid cyhoeddus

Mae llawer o bobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF) oherwydd eu statws fewnfudo. Ar hyn o bryd, nid yw cymorth digartrefedd, fel y mae wedi'i ddiffinio dan ddeddfwriaeth Cymru, wedi'i ddiffinio fel cyllid cyhoeddus gan Swyddfa Gartref y DU. Mae'n debyg mai amryfusedd yw hyn, gan fod cymorth digartrefedd yn Lloegr yn dod o dan ddiffiniad Swyddfa Gartref y DU o gyllid cyhoeddus. Gallai Llywodraeth Cymru nodi bod pobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo, nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, yn gymwys ar gyfer cymorth digartrefedd. Fodd bynnag, os amryfusedd yw'r rheswm pam nad oes cyfeiriad at gymorth digartrefedd yng Nghymru, yna diffinnir cymorth digartrefedd fel cyllid cyhoeddus. Gallai Llywodraeth Cymru nodi bod y bobl hyn yn gymwys ar gyfer cymorth digartrefedd, ond byddai'r rhai nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus yn torri eu hamodau fewnfudo pe baent yn derbyn cymorth digartrefedd. Pe baent yn cael eu darganfod, byddai eu hawl i aros yn cael ei chanslo a byddai'n rhaid iddynt adael y DU. Felly ni fyddai o gymorth i unrhyw unigolion.

Dyletswydd i gyfeirio

Yn Lloegr, mae'r Ddeddf Lleihau Digartrefedd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig i gyfeirio defnyddwyr gwasanaeth y maent yn meddwl y gallent fod yn ddigartref, neu o dan fygythiad o fod yn ddigartref, at dimau opsiynau digartrefedd/tai awdurdodau lleol. Mae amheuaeth a allai Gweinidogion Cymru roi dyletswydd ar Ysgrifennydd Gwladol y DU sy'n gyfrifol am

y Swyddfa Gartref i gyfeirio pobl at dimau digartrefedd awdurdodau lleol Cymru. Byddai'n well gofyn y cwestiwn hwn i rywun sy'n hyddysg ym maes cyfraith datganoli. Pe bai cyfraith datganoli'n caniatáu rhoi'r ddyletswydd hon, byddai'n bosibl i Weinidogion Cymru ddiffinio bod y ddyletswydd yn gymwys i ffoaduriaid â hawl i aros sydd wedi cael hysbysiad ymadael 28 diwrnod. Ni fyddai hyn yn costio dim i Ysgrifennydd Gwladol y DU sy'n gyfrifol am y Swyddfa Gartref.

Eglurodd LD y gallent fod yn gymwys cyn iddynt gael hysbysiad ymadael 28 diwrnod. Ar y cynharaf gallai ceisiwr lloches fod yn gymwys o'r dyddiad y mae'n cael ei hysbysu bod ganddo statws ffoadur.

Byddai'n fuddiol pe bai data ar gael i ddangos faint o bobl allai gael eu cyfeirio at awdurdodau lleol Cymru yn hytrach nag awdurdodau lleol Lloegr drwy ddilyn y trywydd hwn.

**b) Trafodaeth am y nodyn cyngor ar gymhwysra
Gwahanol ddiffiniadau o 'heb hawl i gyllid cyhoeddus'**

Nododd SF bod angen ystyried y gwahaniaethau rhwng y diffiniad cyfreithiol ffurfiol a'r defnydd llafar o'r term 'heb hawl i gyllid cyhoeddus', sy'n aml yn cael ei ymestyn i gynnwys y rhai hynny nad oes ganddynt hawl i aros nac i gael cyllid cyhoeddus.

Eglurodd AB fod y cyngor cyfreithiol hwn yn seiliedig ar bobl sydd â hawl i aros ond nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Gallai pobl nad oes ganddynt hawl i aros gael eu cadw'n gaeth a'u symud ymaith, felly mae'n debyg nad methu â chael cymorth digartrefedd yw'r peth mwyaf y maent yn poeni amdano. Nid oes amodau ynghlwm wrth eu hawl, ond os yw'r Swyddfa Gartref yn gwybod amdanynt, gallent gael statws 'mechnïaeth fewnfudo' dan Atodlen 10 o Ddeddf Mewnfudo 2016. Mae'n bosibl y byddai torri amodau mechnïaeth fewnfudo yn cael ei weld fel trosedd.

Rhaid gofalu bod unrhyw argymhelliad sy'n ymwneud â mater 'heb hawl i gyllid cyhoeddus' yn defnyddio'r diffiniad cyfreithiol. Pe bai'r Swyddfa Gartref yn teimlo y byddai cyfraith sy'n ymwneud â chymhwysra yn caniatáu i'r rhai hynny nad oes ganddynt statws cyfreithiol yn y wlad fod yn gymwys i gael cymorth digartrefedd, gallai ddiwygio Adran 115 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999 sydd ar hyn o bryd yn eithrio pobl o fuddion ariannol, i'w heithrio'n benodol o'r hawl i gymorth digartrefedd.

Gofynnodd SF i AB: Pe bai Swyddfa Gartref y DU yn ymestyn y diffiniad o gyllid cyhoeddus i gynnwys cymorth digartrefedd yng Nghymru, fel sy'n cael ei ddiffinio gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a fyddai hyn yn cynnwys darparu llety yn unig, neu a fyddai'n cynnwys mathau eraill o gymorth megis gwaith atal?

Dywedodd AB ei bod yn debygol bod y Swyddfa Gartref yn golygu darparu llety, ond dim ond y Swyddfa Gartref allai roi ateb pendant i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun polisi ehangach yn dweud wrthym nad oes ar y Swyddfa Gartref eisiau i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus gael unrhyw gymorth, felly os gofynnid iddynt mae'n debyg y byddent yn dweud bod y diffiniad yn ymestyn y tu hwnt i ddim ond darparu llety a'i fod yn cynnwys unrhyw fath o 'fuddion mewn nwyddau', gan gynnwys cyngor.

Gwneud newid amlwg neu obeithio na fydd neb yn sylwi

Ni wyddom am enghreifftiau lle mae gweinyddiaeth ddatganoledig wedi nodi'n glir ei bod yn dymuno rhoi cymorth mewn unrhyw ffurf, nid yng nghyd-destun digartrefedd yn unig, a bod y Swyddfa Gartref wedi sylwi yn ddiweddarach ac wedi gwneud rhywbeth yn ei gylch wedyn.

Awgrymodd MD fod dadl gref felly y dylai'r Panel argymell bod Llywodraeth Cymru yn glir ynglŷn â'i bwriad i ddarparu cymorth digartrefedd i bobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Gwnaeth MD gymhariaeth â gwaith ar y Ddeddf Crwydraeth, gan nodi na all

Llywodraeth Cymru ddiddymu trosedd, ond oherwydd bod y setliad datganoledig yn caniatáu adolygiad ar ddigartrefedd, gall benderfynu peidio â chymhwysu'r Ddeddf Crwydraeth. Gallai'r Swyddfa Gartref wneud rhywbeth ynglŷn â hyn, ond nid yw wedi gwneud dim.

Dyweddod AB y byddai'r cynnig hwn, oherwydd polisi'r Swyddfa Gartref o amgylchedd gelyniaethus, yn debygol o fynd i lefel gweinidogion i gael ei gymeradwyo'n derfynol ac na fyddai'n cael ei dderbyn – byddai gwneud cyllid cyhoeddus yn hygyrch i'r rhai nad oes ganddynt hawl i aros yn anghyson â'r cyfeiriad polisi presennol. Fodd bynnag, pe bai'r Swyddfa Gartref yn credu na fyddai canlyniad y ddarpariaeth yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol, mae'n bosibl y byddai'r Ysgrifennydd Cartref yn ei derbyn.

Grwpiau eraill â hawl i aros ond heb hawl i gyllid cyhoeddus

Trafododd aelodau'r Panel enghreifftiau o grwpiau eraill y maent yn teimlo y dylent fod yn gymwys i gael cymorth digartrefedd, er nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus.

- **Menywod ar fisa priod sy'n ffoi rhag cam-drin domestig** – Os ydynt yn gadael eu perthynas gamdriniol, nid oes ganddynt hawl i aros. Mae rhywfaint o ddryswch ynglŷn â hawliau pobl yn y sefyllfa hon yng Nghymru ar hyn o bryd.
- **Pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus sydd â phlant ag anghenion arbennig.**
- **Dioddefwyr caethwasiaeth fodern.**

Efallai y byddai Gweinidogion Cymru yn hoffi cynnig bod y bobl sydd yn y sefyllfaoedd hyn yn dod i sylw awdurdodau lleol Cymru a bod yn rhaid i'r awdurdodau lleol weithredu'n gyflym, yn hytrach nag aros i'r Swyddfa Gartref asesu a yw eu statws mewnfudo yn golygu bod ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus ai peidio.

Mae enghreifftiau o gyllid cyhoeddus y gall pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus ei gael. Er enghraifft, hawl i wasanaethau cymdeithasol i blant, hawl i ofal iechyd mewn argyfwng.

Cymorth ychwanegol os caiff cymhwystra ei ymestyn

Trafododd y Panel beth fyddai'n digwydd pe bai'r ddeddfwriaeth yn ymestyn y cymhwystra ar gyfer cymorth digartrefedd i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus, hynny yw, byddai ar awdurdodau lleol angen gwasanaethau ychwanegol er mwyn rhoi cefnogaeth briodol a symud y bobl hyn i lety sefydlog gan nad ydynt yn gallu cael budd-dal tai.

Mater tai ynteu fater gofal cymdeithasol

A ellir cynorthwyo'r grwpiau hyn drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant? Dywedodd LD y byddai'n bosibl dylanwadu ar hyn drwy ganllawiau. Gallai fod yn opsiwn i droi ato os bydd Gweinidogion Cymru yn teimlo o safbwynt gwleidyddol na ellid cynnig hyn dan ddeddfwriaeth digartrefedd.

Maint y broblem

Awgrymwyd nad yw tua 3% o'r bobl sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd yn gymwys. Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw hyn yn dangos y darlun cyfan gan fod llawer o bobl yn gwybod nad ydynt yn gymwys, ac o ganlyniad nad ydynt yn gwneud cais.

Risg

Pe bai cymhwystra yn cael ei ymestyn, nododd HF fod risg y gallai Cymru ddod yn fagnet i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus sy'n dymuno cael cymorth digartrefedd.

c) Argymhellion

Awgrymodd LD y dylai'r Panel argymhell y canlynol:

1. Dylai Llywodraeth Cymru nodi mewn termau clir bod arni eisiau cynnwys pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus ar y rhestr o bobl sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd.
2. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno achos cryf i'r Swyddfa Gartref yn nodi y dylid diwygio'r diffiniad o gyllid cyhoeddus yn y rheolau mewn fudo i gynnwys pŵer i Weinidogion Cymru nodi beth yw cyllid cyhoeddus i'r rhai hynny sy'n byw yng Nghymru. (Nid mater mewn fudo yw hwn; mae'n fater datganoli.)

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Liz Davies, Adrian Berry	Mae'r meysydd ar gyfer darparu cyngor cyfreithiol arbenigol yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Cofnodi pwyntiau a godwyd yn y diweddariad mewn fersiwn diwygiedig o'r cyngor. • Diffiniad cyfreithiol ffurfiol o 'heb hawl i gyllid cyhoeddus', gan gynnwys enghreifftiau o ble gall ALLau droi. • Diffiniad drafft o gyllid cyhoeddus, yn nodi beth nad yw'n gyllid cyhoeddus. • Cynnwys gwasanaethau cymdeithasol i helpu unigolion dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. 	1 wythnos cyn y cyfarfod nesaf 26.01.2023
Pawb	O ran cymhwysra, darparu unrhyw enghreifftiau eraill i dîm Crisis o gategorïau ar goll o bobl sydd yma'n gyfreithlon ond heb gael eu nodi fel rhai sy'n gymwys.	1 wythnos cyn y cyfarfod nesaf 26.01.2023
Pawb	Adborth ar feddyliau ac argymhellion i dîm Crisis ynglŷn â sut i symud unigolion ymlaen o sefyllfa dros dro i un barhaol, o ran beth arall y gall ALLau ei wneud.	1 wythnos cyn y cyfarfod nesaf 26.01.2023
Pawb	Casglu data/meddyliau ynglŷn â'r rhai sy'n gwneud cais ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymwys (3%), gan rannu syniadau am gefnogaeth drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.	1 wythnos cyn y cyfarfod nesaf 26.01.2023

6. Troi allan

a) Troi allan o dai cymdeithasol – nodyn cyngor LD

Cyflwynodd LD ei nodyn cyngor ar atal troi allan o dai cymdeithasol i fod yn ddigartref. Roedd hyn yn cynnwys:

Diwygio deddfwriaeth

- Cyflwyno seiliau disgresiynol dros feddiant a ddefnyddir gan landlordiaid cymdeithasol sy'n nodi nad yw'n rhesymol gwneud gorchymyn adfeddu mewn unrhyw hawliad yn erbyn tenant diogel oni bai fod gan y llys dystiolaeth naill ai;
 - i. bod llety amgen addas ar gael i'r tenant, neu
 - ii. bod dyletswydd i'r tenant dan gyfraith digartrefedd wedi'i derbyn gan awdurdod tai lleol a bod llety'n cael ei sicrhau neu'n mynd i gael ei sicrhau.

Diwygio'r protocol cyn gweithredu

- Mae protocol cyn gweithredu yn un o ofynion y Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Mae angen i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr dicio blychau amrywiol i ddangos eu bod wedi gwneud pethau amrywiol cyn hawliad meddiant.
- Os na fydd landlord cymdeithasol yn cydymffurfio â'r protocol cyn gweithredu, gall y llys ymyrryd drwy wneud gorchymyn costau, gohirio neu wrthod yr hawliad meddiant. Yn ymarferol, fodd bynnag, yn anaml iawn y mae hyn yn digwydd.

Argymhelliad i ddiwygio protocol cyn gweithredu i nodi:

- i. Rhaid i landlordiaid cymdeithasol wneud atgyfeiriad i awdurdod lleol dan gyfraith digartrefedd cyn gwneud hawliad meddiant. Os na wneir atgyfeiriad, ac os nad oes gan y tenant lety amgen addas ar ddyddiad y gwrandawriad meddiant, yna caiff yr hawliad meddiant ei wrthod.

Byddai angen i Weinidogion Cymru drafod hyn â Gweinyddiaeth Gyfiawnder y DU.

b) Troi allan o dai cymdeithasol – trafodaeth gan y Panel

Pwyntiau a wnaethpwyd gan aelodau o'r Panel o blaid diwygio'r ddeddfwriaeth:

- Mae newid deddfwriaethol yn gwneud cyfraniad hirdymor, yn diogelu ar gyfer y dyfodol ac yn sicrhau cysondeb.
Mae'n dileu dibyniaeth ar ewyllys da nad oes sicrwydd y bydd yn para.
- Mae'n bosibl na fydd atgyfeirio i sylw awdurdod lleol yn atal digartrefedd – mae hynny'n dibynnu ar nifer o ffactorau eraill. Mae llawer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eisoes yn cymryd camau rhagweithiol i atal digartrefedd, er enghraifft, symudiadau wedi'u rheoli, trosglwyddo, ac ati. Gellid ychwanegu hyn at ddeddfwriaeth i barhau â chynnydd ar ôl i swyddi arweinyddiaeth newid.
- Os yw'n digwydd pa un bynnag, does dim drwg iddo fod yn gyfraith.

Pwyntiau a godwyd gan aelodau o'r Panel yn erbyn diwygio'r ddeddfwriaeth:

- Mynegodd CC bryder fod risg bosibl y byddai Cymdeithasau Tai yn cael eu hailddosbarthu: roedd Cymdeithasau Tai ledled y DU yn cael eu dosbarthu ar y fantolen gyhoeddus oherwydd y lefel o reolaeth gan awdurdodau lleol a'r llywodraeth genedlaethol – effaith gronnu llawer o bethau yn crynhoi dros gyfnod. Yna roedd angen gwneud llawer iawn o waith i gael cymdeithasau tai oddi ar y fantolen gyhoeddus er mwyn iddynt allu bod yn gyrrff annibynnol. Roedd CC yn awgrymu, os bydd y risg hon yn dod yn realiti, y byddai'n gwrthdaro â rheolaeth weithredol cymdeithasau tai ac yn peryglu eu hannibyniaeth, sydd ar hyn o bryd yn caniatáu iddynt fenthycu a buddsoddi arian mewn cartrefi a chefnogaeth newydd a rhai sy'n bodoli'n barod.
- Dywedodd aelod y gellid cwestiynu'r angen am ddeddfwriaeth ar y sail fod y diwylliant yn y maes yn gwella pa un bynnag – mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac ALLau eisoes wedi cytuno 'na ddylid troi allan i ddigartrefedd', mae ymgysylltu cynnar yn cynyddu ac yn cryfhau, y mater sy'n cael sylw yn barod drwy ewyllys da ac ymrwymiad gwirfoddol. Mae gweithredu yn y maes yn gryf i atal troi allan, h.y. lliniaru materion ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy symud pobl o gwmpas stoc.

Ystyriaethau pellach:

- **Llety dros dro.** Fel y dangoswyd yn nhystiolaeth yr Arbenigwyr drwy Brofiad, mae pobl sy'n byw mewn llety dros dro yn ddigartref. Mae troi allan i lety dros dro felly yn golygu troi allan i fod yn ddigartref. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu llety dros dro. Mae hwn yn bolisi anodd i ymdrin ag ef. Dywedodd SF fod hyn yn broblem yn yr Alban hefyd.

- **Maint y broblem.** Mae data yn wael iawn, yn enwedig yng nghyswllt ystadegau ar droi allan o dai cymdeithasol, felly mae'n anodd gwybod beth yw maint y broblem. Cyfran lai o waith achos Shelter Cymru nag yn y gorffennol; er hyn, mae'r rhan fwyaf o waith achos y tîm cyfreithiol yn achosion amddiffyn meddiant ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn tai cymdeithasol.

c) Troi allan o'r sector rhentu preifat – trafodaeth gan y Panel

Dod â throi allan heb fai i ben

- Mae troi allan heb fai yn gwneud y sector rhentu preifat yn annigol ac yn achosi digartrefedd.
- Mae perygl mai ni fydd yr unig wlad ym Mhrydain fydd yn troi allan heb fai.
- Nid yw hyn yn flaenoriaeth i'r Gweinidog, sy'n dweud na fydd dod â throi allan heb fai i ben heb gyflwyno seiliau newydd dros droi allan yn gweithio. A allai'r panel ystyried set newydd o seiliau a allai gymryd lle troi allan heb fai? Efallai y bydd hyn y tu allan i gwmpas y panel.
- Nid yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn cynnwys y seiliau gorfodol dros droi allan sy'n bodoli yn yr Alban ac sy'n cael eu cynnig ar gyfer Lloegr h.y. mae'r landlord yn bwriadu gwerthu'r eiddo neu symud iddo. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl (NRLA) yn Lloegr yn cefnogi diddymu troi allan heb fai cyn belled bod y seiliau gorfodol hyn yn eu lle.
- Yn yr Alban mae seiliau aelod o'r teulu yn symud i'r eiddo yn ddewisol, ond yn debygol o fod yn orfodol yn Lloegr.
- Gallai'r Panel ystyried a fyddai seiliau o'r fath yn orfodol ynteu'n ddewisol yng Nghymru. Mae'n debyg y byddai landlord yn pwysu ar Weinidogion i wneud y seiliau'n orfodol, a byddai tenantiaid yn pwysu i'w gwneud yn ddewisol. Mae'r frwydr wleidyddol hon ar fin digwydd yn Lloegr.
- Awgrymodd LD y dylid gwneud y seiliau'n ddewisol.

Troi allan yn anghyfreithlon

Nifer fawr yn cael eu troi allan yn anghyfreithlon yng Nghymru heb unrhyw ganlyniadau i landlordiaid. Mae'n gam gweithredu risg isel i landlordiaid ei gymryd. Nid yw Awdurdodau Lleol mewn sefyllfa i erlyn landlordiaid gan fod angen cymaint o dystiolaeth. Nid oes gan Rentu Doeth Cymru y modd i wneud hyn ychwaith. A ellid rhoi'r pŵer i Rentu Doeth Cymru orfodi cosbau sifil?

Nododd y Cadeirydd nad yw hyn yn rhan o gwmpas y Panel, ond bydd cyd-destun polisi cyffredinol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

d) Anghenion cefnogaeth heb eu diwallu

Nodwyd bod troi allan, o dai cymdeithasol ac o'r sector rhentu preifat, yn aml o ganlyniad i anghenion cefnogaeth heb eu diwallu. Nid yw unigolion mewn llety dros dro a llety sefydlog yn cael digon o gefnogaeth i gynnal eu tenantiaethau. Mae angen cyllid i ddarparu'r gefnogaeth hon, sy'n hollbwysig er mwyn datrys problem troi allan.

Cyfarfod wyneb yn wyneb mis Chwefror i barhau â'r drafodaeth ar gefnogaeth a dod â throi allan heb fai i ben â mewnbwn gan Lywodraeth Cymru.

Aelod(au) y Panel	Cam gweithredu	Amserlen
Liz Davies	Y meysydd ar gyfer darparu cyngor cyfreithiol arbenigol ar droi allan yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Diwygio'r ddeddfwriaeth. • Dod â throi allan heb fai i ben yng Nghymru a chanllawiau ar beth i'w gyflwyno yn ei le. 	1 wythnos cyn y cyfarfod nesaf 26.01.2023

	<ul style="list-style-type: none"> Argymhellion ar gyfer mesurau diogelu yn ymwneud â throi allan heb fai i'w hymgorffori yn Neddf Rhentu Cartrefi Cymru (Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl). 	
Ashleigh Stevens, Angela Bowen	Rhannu data a gwybodaeth â thîm Crisis ynglŷn â'r niferoedd sy'n cael eu troi allan, gan gynnwys tystiolaeth o achosion meddiant.	03.02.2023
Jennie Bibbings	Diweddarur Panel ynglŷn â data/astudiaethau achos yn y cyfarfod nesaf er mwyn deall ffeithiau troi allan.	03.02.2023
Hannah Fisher	Ystyried a yw diddymu troi allan heb fai a seiliau posibl ar gyfer cyflwyno rhywbeth yn ei le o fewn cwmpas y Panel.	03.02.2023
Suzanne Fitzpatrick, Jennie Bibbings	Parhau â'r sgwrs am droi allan anghyfreithlon.	03.02.2023

7. Dyraniadau

a) Y sefyllfa bresennol yng Nghymru â dyraniadau tai cymdeithasol, o gymharu â Lloegr a'r Alban – crynodeb LD

Y system ddyraniadau ac eithrio pobl ar seiliau ar wahân i statws mewnfudo

Mae gwahanol reolau ar gyfer Awdurdodau Lleol o gymharu â Chymdeithasau Tai.

- Cymru: Yr unig ffordd y gall awdurdodau lleol eithrio pobl rhag mynd ar restr aros y cynllun dyraniadau ar sail penderfyniadau/yymddygiad unigolyn, sy'n rhoi hawl i awdurdodau lleol gael gorchymyn meddiant yn erbyn y person hwnnw, h.y. ôl-ddyledion rhent difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Lloegr: Gall awdurdodau lleol nodi dosbarthiadau o bobl i'w heithrio h.y. ôl-ddyledion rhent difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a rheolau preswyl/cysylltiad lleol cyn belled bod hynny'n rhesymol ac nad yw'n gwahaniaethu dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Fodd bynnag, mae llawer o ymgyfreitha wedi canfod bod y dosbarthiadau hyn yn gwahaniaethu yn erbyn e.e. sipsiwn/teithwyr, ffoaduriaid, menywod sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.
- Yr Alban: Ar sail achosion unigol, â rhestr benodol o bethau y gellir/na ellir eu hystyried. Mae Adran 5 o Ddeddf Tai (Yr Alban) 2001 yn nodi ei bod yn ofynnol i Gymdeithasau Tai ganfod llety i bobl ddigartref sy'n cael eu cyfeirio atynt gan awdurdodau lleol.
- Cymru a Lloegr: Nid yw Cymdeithasau Tai yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth. Maent yn cael eu rheoli gan fframwaith rheoleiddiol, nad yw'n cynnwys llawer o fanylion am y rheolau y gall Cymdeithasau Tai eu defnyddio ar gyfer eu dyraniadau eu hunain, nac ar gyfer enwebiadau gan Awdurdodau Lleol.
- Mae'r gwahaniaeth rhwng rheolau Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai yn achosi gwrthdaro.

Dau argymhelliad a nodwyd er mwyn gwella:

- Newid y fframwaith rheoleiddio.
- Cyfreithwyr ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai i wneud yn siŵr bod unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyn yn cael eu datrys cyn cytuno ar y cytundeb enwebu.

b) Pwyntiau a godwyd gan aelodau o'r Panel

Mae dyraniadau tai cymdeithasol i deuluoedd digartref yn is yng Nghymru nag yn yr Alban, ac nid oes llawer o ymgyfreitha ar ddyraniadau yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Mae hwn yn faes lle mae'r Gweinidog yn gofyn i'r Panel gyflwyno cynigion deddfwriaethol.

Gorfodadwyedd

Nid yw dyraniadau yn dod dan gymorth cyfreithiol felly mae'n anodd i bobl herio. Mae angen sicrhau bod adolygiad o ddyrannu ar gael i bobl nad ydynt yn gallu cael cymorth cyfreithiol.

Cysondeb

Mae angen i'r dull o ymdrin â dyraniadau fod yn gyson ar draws Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai. Mae deddfwriaeth ddyraniadau'r Alban yn ymdrin ag Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai. Codwyd y pwynt a ddylai pob Awdurdod Lleol yng Nghymru symud i gofrestr tai cyffredin a/neu gael polisi dyraniadau. Dylai unigolyn sy'n dod i mewn i'r system pan mae mewn argyfwng i gael tŷ, pa un a yw yng Nghymru ai peidio, gael tegwch o ran y disgwyliadau a'r broses ddyraniadau. Fodd bynnag, hyd yn oed â chofrestr tai cyffredin/polisi dyrannu, bydd anghysonderau yn ymwneud â chynlluniau gosod sy'n seiliedig ar ddewis a systemau sy'n seiliedig ar fandiau/pwyntiau.

Mae angen cysondeb hefyd er mwyn bod yn deg i bob landlord cymdeithasol, ac mae rhai ohonynt yn ymdrechu'n galed i leihau digartrefedd ac yn cario baich y rhai nad ydynt yn ymdrechu.

Blaenoriaethu teuluoedd digartref

Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi cynyddu eu cyfran o ddyraniadau i deuluoedd digartref i hyd at 50% o'u henwebiadau. Gallai hyn fod yn ateb, ond dylai'r Panel ystyried a allai hyn gael effaith ar atal yn ehangach – gallai teuluoedd nad ydynt yn ddigartref ganfod eu hunain yn ddigartref wedyn oherwydd eu bod yn gorfod aros am fwy o amser. Nid yw'n debygol y byddai'r Panel yn ceisio gosod canrannau drwy ddeddfwriaeth gan fod angen penderfyniadau lleol.

Seiliau dros eithrio o ddyraniadau

Yr enghreifftiau a nodwyd oedd ôl-ddyledion rhent, hanes o droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anifeiliaid anwes. Dylid cael dull gweithredu sy'n ystyried achosion unigol ar sail trawma wrth asesu'r enghreifftiau hyn a rhoi ail gyfle.

Cymhlethdod a diffyg tryloywder

Mae'r systemau dyrannu cymdeithasol a ddefnyddir gan wahanol Awdurdodau Lleol yn aneglur ac yn ddryslyd i (ddarpar) ymgeiswyr. Dylid cyfathrebu'r rhesymau dros flaenoriaethu a'r amseroedd aros yn glir wrth yr ymgeiswyr. Mae angen rhoi sylw i hyn, ond mae'n bosibl ei fod y tu hwnt i gwmpas y Panel.

Barn landlordiaid cymdeithasol

Anogodd CC y Panel i ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol, yn Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai, ynglŷn â'r pwnc hwn, gan ei bod yn bryderus nad yw'r data sydd ar gael ar ddyraniadau tai cymdeithasol yn ddigonol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Byddai mewnbwn gan landlordiaid cymdeithasol yn yr Alban yn ddefnyddiol.

Adran 5 o Ddeddf Tai (Yr Alban) 2001

Dywedodd CC fod y landlordiaid cymdeithasol y bu hi'n ymgysylltu â hwy yn dweud y byddai rhai o ddarpariaethau Adran 5 yn teimlo fel cam yn ôl. Mae 19 o'r 22 Awdurdod Lleol yn dweud eu bod yn defnyddio'r un fframwaith dyraniadau â Chymdeithasau Tai yn eu hardal.

Dyweddod SF fod y defnydd o Adran 5 yn amrywio'n fawr yn yr Alban, ond er hynny, mae'n dylanwadu ar seilwaith. Mae llawer o Awdurdodau Lleol yn dibynnu ar gytundebau partneriaeth yn hytrach nag Adran 5. Mae Adran 5 yn newid y berthynas rhwng Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai oherwydd mae Cymdeithasau Tai yn gwybod bod gan Awdurdodau Lleol y 'sbardun' Adran 5 hwn os nad ydynt yn cydweithredu. Felly mae'n bwysig hyd yn oed os nad oes ei angen ar gyfer cyfraith achosion.

Aiddosbarthu Cymdeithasau Tai

Byddai aiddosbarthu Cymdeithasau Tai ar y fantolen gyhoeddus yn drychinebus. Mae angen iddynt gael mynediad at gyllid preifat o hyd er mwyn buddsoddi'n lleol. Mae'r gallu i weithredu yn annibynnol yn y sector yn hanfodol. Nid yw Cymdeithasau Tai wedi cael eu hailddosbarthu yn yr Alban, er eu bod yn ddarostyngedig i Adran 5.

Ewyllys gwleidyddol

Mae'n bosibl bod mwy o ewyllys gwleidyddol erbyn hyn i newid polisiau dyraniadau er mwyn cartrefu pobl sy'n profi digartrefedd, o ganlyniad i well dealltwriaeth o beth yw digartrefedd, ar faint o bobl y mae'n effeithio, a'r ffaith ei fod yn cynnwys mwy na dim ond pobl sy'n ddigartref ar y stryd.

Risg o greu ghettos

Mae landlordiaid cymdeithasol yn poeni y bydd datblygu tai a lleoli pobl â chefnidir digartrefedd yn yr un datblygiad yn arwain at greu ghettos. Mae pobl sydd â phrofiad o fod yn ddigartref yn poeni ynglŷn â hyn hefyd.

Parhau â'r drafodaeth ar Adran 5 yng nghyfarfod wyneb yn wyneb mis Chwefror.

Aelod(au) y Panel	Cam gweithredu	Amserlen
Clarissa Corbisiero	Cymryd yr awenau ac ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol, gan ofyn beth mae angen ei wella er mwyn gwneud gwahaniaeth.	03.02.2023
Liz Davies	<p>Mae'r meysydd ar gyfer darparu cyngor cyfreithiol arbenigol ar ddyraniadau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Goblygiadau'r ffaith nad yw tri ALL yng Nghymru yn defnyddio Cofrestr Tai Cyffredin neu bolisi. Opsiynau atebolrwydd ar gyfer troi allan anghyfreithlon. Aiddosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Diwygio cyngor cynharach ar ddeddfwriaeth i atal troi allan i ddigartrefedd, fel nad yw'n ymwneud â phobl sydd wedi gwneud cais digartrefedd mwyach, ond yn hytrach na ellir gwneud gorchymyn oni bai fod y Llys yn fodlon y bydd llety addas ar gael ar ddyddiad y gorchymyn. Gydag Adrian, diweddarau'r cyngor ar gymhwystra i ymdrin â ffyrdd gwleidyddol a chyfreithiol o geisio gwneud pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus yn gymwys. 	1 wythnos cyn dechrau'r cyfarfod nesaf 26.01.2023

8. Cytuno ar gamau gweithredu yn codi o'r cyfarfod ac ystyried cwestiynau i grwpiau rhanddeiliaid

Parhau â'r drafodaeth ar sefyllfaoedd sy'n codi ac argymhellion ar gyfer diwygio yng nghyswllt llety dros dro ac addasrwydd yn y cyfarfod ychwanegol ym mis Ionawr.

Sefyllfa'r Panel, fel sydd wedi'i nodi yn y Cylch Gorchwyl, yw y bydd meysydd lle na all y Panel ddod i gonsensws arnynt yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod wyneb yn wyneb ym mis Chwefror. Os na ellir dod i gonsensws, caiff hynny ei nodi yn yr adroddiad.

Aelod(au) y Panel	Cam gweithredu	Amserlen
Abi Renshaw	Trefnu dyddiadau gydag aelodau'r Panel ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol yn 2023, gan gynnwys cyfarfod ychwanegol.	Ar unwaith
Jordan Brewer	Drafftio rhannau o'r adroddiad i'r Panel ymateb iddynt yng Nghyfarfod 5, a fydd yn gyfarfod wyneb yn wyneb ym mis Chwefror.	Cyn cyfarfod mis Chwefror

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Zoom, ddydd Iau, 26 Ionawr 2023. Mae hwn yn Gyfarfod 4 ychwanegol i drafod y pwyntiau ar yr agenda ar lety dros dro ac addasrwydd na chawsant eu trafod heddiw.